Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cywion Bach**

**Yr Hen Ysgol**
**Idole**
**Caerfyrddin**
**SA32 8DG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/01/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cywion Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cywion Bach Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Ionawr a 3 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy<br>Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cofrestrwyd Meithrinfa Cywion Bach ym mis Tachwedd 2018 ac mae wedi'i lleoli yn yr hen ysgol yng Nghwmffrwd, Caerfyrddin. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal dydd llawn ar gyfer uchafswm o 48 o blant rhwng tri mis a 12 oed. Mae'r feithrinfa ar agor rhwng 6.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Heather Thomas yw'r unigolyn cyfrifol ar ran y cwmni, Cywion Bach Cyf, a hi hefyd yw'r person â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd. Darperir y gofal yn Gymraeg.

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, felly, ni wnaethom ystyried pob thema yn fanwl ar yr achlysur hwn. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r arolygiad yn rhithwir.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau awyr agored cyfredol i gadw'r plant yn ddiogel ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall gweithdrefnau diogelwch y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig cymorth i'r staff yn eu rolau ac maent yn ymrwymedig i wella arferion er budd y plant. Fodd bynnag, rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wneud yn siŵr bod y staff yn goruchwylio'r plant bob amser, bod gwiriadau recriwtio staff ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff a bod cofnodion yn cael eu cynnal yn gywir.

## Llesiant

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl, ac felly nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Roedd y plant yn mwynhau chwarae, gan chwerthin a sgrechian wrth iddynt ddringo ar gyfarpar ac archwilio ardal yr ysgol goedwig awyr agored. Roedd y plant yn ystyriol o'i gilydd, gan ddal dwylo wrth gerdded drwy'r dail a oedd wedi disgyn.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl, ac felly nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Mae'r mwyafrif o'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod y gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn a'r gwiriadau diogelwch i'w cwblhau cyn mynd â'r plant allan. Maent yn siarad yn gadarnhaol am yr addasiadau diogelwch a wnaed, ac maent yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus er budd y plant. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl, ac felly nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn ddiogel. Mae ganddynt weithdrefnau ac asesiadau risg ar waith ond bu digwyddiad lle na wnaeth y staff eu dilyn yn agos. Mae asesiadau risg, gweithdrefnau a mesurau diogelwch ychwanegol a adolygwyd yn ddiweddar yn sicrhau diogelwch y plant. Mae hyn yn cynnwys cloeon cap ychwanegol fel rhai beiciau yn cael eu gosod ar y giatiau metel a phren a'r staff yn adolygu gweithdrefnau'r gwasanaeth.

## Arwain a Rheoli

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn fanwl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Gwnaethant nodi yn gyflym y newidiadau yr oedd eu hangen i wella arferion diogelwch er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Roedd hyn yn dilyn digwyddiad lle roedd y staff wedi methu â goruchwylio'r plant yn briodol wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored. Er i gamau gael eu cymryd ar unwaith ar y pryd er mwyn sicrhau nad oedd achos o'r fath yn digwydd eto, mae hwn yn fater difrifol ac rydym wedi cyflwyno Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r digwyddiad hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cymryd camau priodol i ddatrys unrhyw broblemau yn brydlon sydd o fudd uniongyrchol i ddiogelwch y plant. Maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ac yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn weladwy yn y gwasanaeth i gefnogi'r staff yn eu rolau, maent yn cynnal cyfarfodydd staff ac arfarniadau blynyddol, ac maent yn goruchwylio'r staff yn rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau hysbysadwy ond nid ydynt bob amser yn hysbysu AGC am newidiadau i'r staff yn y gwasanaeth o fewn yr amserlenni gofynnol. Maent yn sicrhau eu bod yn cadw cofrestrau cyfredol ar gyfer y staff a'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod cofrestrau yn gywir am nad ydynt yn cofnodi enwau'r staff a ofalodd am y plant yn ystod seibiannau'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau recriwtio ond nid ydynt bob amser yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer myfyrwyr/gwirfoddolwyr nac aelodau o staff dros dro.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Dylai'r unigolyn cyfrifol gofnodi enwau'r personau a ofalodd am y plant yn ystod seibiannau'r staff.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n agos bob amser. | Rheoliad 20 (1) (a) |

Gwelsom ganlyniadau gwael i'r bobl, a/neu risg i lesiant y bobl. Felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau.

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer gwirfoddolwyr/myfyrwyr ac aelodau o staff achlysurol. | Rheoliad 28 (2) (b) [i] |
| Methodd yr Unigolyn Cyfrifol â hysbysu AGC am newidiadau i'r staff o fewn yr amserlen benodol. | Rheoliad 31 (1) Atodlen 4.02(1)(b) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/06/2021